# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019

Amser: 08.30 - 08.44

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Ann Jones AC, Dirprwy Llywydd, (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Yn dilyn yr ymosodiadau yn Christchurch ac Utrecht, bydd y Dirprwy Lywydd yn dweud ychydig o eiriau ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn heddiw a bydd yn gwahodd yr Aelodau i ymuno â hi mewn munud o dawelwch.
- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar gyfer eitemau heblaw'r Cyfnod 3 ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Bydd egwyl o 10 munud cyn dechrau trafodion Cyfnod 3.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 1 Mai 2019 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Perthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

### 3.4 Dadl Aelod – dewis cynnig ar gyfer dadl

*Dadl Aelod – dewis cynnig ar gyfer dadl*

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 27 Mawrth:

**NNDM6990**

**Andrew RT Davies**

**NNDM6990**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) pwysigrwydd rygbi i bobl Cymru, y manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r gêm, a'i lle arbennig yng ngwead cymunedau ledled ein cenedl;

b) yr heriau ariannol a strwythurol sy'n wynebu rygbi yng Nghymru ar hyn o bryd;

c) goblygiadau posibl 'Project Reset' Undeb Rygbi Cymru ar rygbi proffesiynol a'r strwythur rhanbarthol yng Nghymru, ac ar y gwasanaethau lleol a chymunedol ychwanegol a ddarperir ar hyn o bryd gan y rhanbarthau; a

d) y pryderon cryf a fynegwyd gan gefnogwyr ynghylch y posibilrwydd o uno rhanbarthau'r Gweilch a'r Sgarlets.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag Undeb Rygbi Cymru a phartneriaid rhanbarthol/clwb i ddiogelu rygbi yng Nghymru a llunio model cynaliadwy tymor hir ar gyfer y gêm ar lefel ranbarthol ac ar lawr gwlad.

**Cefnogwyr**:

**Huw Irranca-Davies**
**Bethan Sayed**
**Mohammad Asghar**
**Jayne Bryant**
**Hefin David**
**Suzy Davies**
**Janet Finch-Saunders**
**Mike Hedges**
**Dai Lloyd**
**Lynne Neagle**
**David Rees**

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir

Nododd y Rheolwyr Busnes y bwriedir i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn gael ei chynnal ar 30 Ebrill am 15 munud, a bod hyn yn caniatáu ar gyfer 3 wythnos eistedd o waith craffu gan bwyllgor yn hytrach na'r 6 wythnos arferol, oherwydd amserlenni Senedd y DU.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gyda dyddiad cau ar gyfer adrodd ar 25 Ebrill.

## 4.2 Amserlen ar gyfer trafod y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), Ymateb y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad mewn egwyddor ar 5 Mawrth i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 gyda dyddiad cau ar gyfer adrodd yn ôl ar 19 Gorffennaf. Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar ddyddiad cau o 8 Tachwedd 2019 ar gyfer trafodion pwyllgor Cyfnod 2.

# 5 Pwyllgorau

## 5.1 Cais gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am gyfarfod ychwanegol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais.

# 6 Unrhyw fater arall

*Y Pwyllgor Deisebau*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wahodd UKIP i lenwi'r swydd wag ar y Pwyllgor Deisebau. Dywedodd Neil Hamilton fod angen i Grŵp UKIP gael trafodaeth gyffredinol am ddyranniad eu lleoedd ar pwyllgorau, cyn enwebu aelod i lenwi'r lle gwag ar y Pwyllgor Deisebau.

*Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog*

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i ethol Janet Finch-Saunders yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Waith y Prif Weinidog yn lle David Rowlands. Bydd y cynnig yn cael ei ychwanegu at agenda Cyfarfod Llawn yfory.

*Agenda'r Wythnos Nesaf*

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd papurau ar Goladu Canllawiau ac ar Reolau Sefydlog ar gyfer Biliau Cydgrynhoi ar yr agenda ar gyfer yr wythnos nesaf.